# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS a LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 1/4/2023 – 31/3/2024

Gweler isod Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos 2023 i 2024

## RHIFAU AR GOFRESTR ARDAL Y CYNGOR

Betws yn Rhos = 556 Llanelian yn Rhos = 305
Cyfanswm = 861

## AELODAU Y CYNGOR — CYNYRCHIOLI

**Cadeirydd:** John Evans — Clwb Chwaraeon Betws yn Rhos

**Is-Gadeirydd**: Glena Humphrey — Bwrdd Llywodraethu Ysgol Betws yn Rhos

**Cynghorwyr :**
Irwedd Griffiths — Bwrdd Llywodraethu Ysgol y Plas
Bryn Jones — Mynwent Betws yn Rhos
D Gwyn Jones — Canolfan Gymunedol Llanelian yn Rhos
Gethin Owen — Neuadd y Pentref Betws yn Rhos
John D Roberts
Goronwy Rees Williams
Hefin Williams — Awdurdod Addysg Lleol

Gwenda Davies

**Cynghorydd Sir Conwy** : Ifor Glyn Lloyd

**Clerc:** Tom Jones i fynnu at 31/3/24 a Mel Jones o 1/4/24

ETHOLIAD

Roedd dim Etholiad yn ystod y flwyddyn.

CYFARFODYDD

Cynhalwyd deg cyfarfod yn ystod y flwyddyn. Gan fod Canolfan Gymunedol Llanelian yn Rhos yn cael ei ail adeiladu dim ond dau gyfarfod cafodd ei cynnal ynno hefo wyth cyfarfod yn caelei cynnal yn Canolfan Chwaraeon, Betws yn Rhos.
Does dim cyfarfodydd yn mis Awst nag mis Rhagfyr.
Unwaith fydd y Ganolfan Gymenudol yn Llanelian ar agor fydd y cyfarfodydd yn cael ei rhannu yn gyfartal.

PRESENOLDEB

Yn ystod y flwyddyn cafwyd 82% o bresenoldeb gan y Cynghorwyr yn y cyfarfodydd a fe fydd i’r Cynghorydd Sir fynychu 8 o’r cyfarfodydd.

CYLLID

Rhoddwyd cais a derbynwyd Praesept o £9,000 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y flwyddyn

Cafwyd gwariant fel a ganlyn:

Tal y Clerc = £4,459.29
HMRC = £1,115.40

Grantiau i grwpiau lleol = £2,052.00
Trwyddedau, aelodaeth ac yswiriant = £481.00
Gwasanaethau y we ac ebost = £2,727.70
Archwiliadau Blynyddol = £1,317.00
Rhent am safleoedd cyfarfodydd = £270.00
Cynnal a chadw byrddau gwybodaeth, goleuadau Nadolig ayyb = £696.77
Gwasanaethau cyflogaeth = £234.00
Costau Banc = £61.20

Cyfanswm = £13,414.36

Mae rhan fwyaf o anfonebau yn cael ei talu ar lein.

ARCHWILIADAU BLYNYDDOL

Roedd un neu ddau o sylwadau a chrybwylliadau bychan yn dilyn yr Archwiliad Mewnol Blynyddol a gafwyd ei unioni cyn ei gyrru i Archwiliad Cymru. Roedd yr un sylwadau wedi ei gwneud ganddynt hwy. Mae rheini yn awr wedi ei cywiro. Bydd archwiliad llawn yn cael ei wneud y flwyddyn yma.

CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafodwyd 22 o geisiadau cynllunio dros y flwyddyn. Roddwyd barn y Cyngor mewn adroddiad am bob un or ceisiadau i Adran Cynllunio CBSC.

Cafodd 16 or ceisiadau ei cymereadwyo, 4 or ceisiadau ei gwrthod a 2 or ceisiadau ei tynnu yn ôl.

FFERMYDD GWYNT

Bu i dipyn o sôn yn ystod y flwyddyn am adeiladu ffermydd gwynt yn ardal y Cyngor ac yn yr ardaloedd cyfagos. Mae’n amlwg fod hyn yn creu llawer o bryder i drigolion y gymdogaeth a felly cafwyd gryn dipyn o drafodaeth ynglun a’r datblygiadau hyn. Gan fod mwyafrif o drigolion yr ardal i weld yn erbyn y

dablygiadau hyn bu i'r Cyngor fod yn gefnogol y wrthwynebiadau i'r ffermydd gwynt hyn. Byddwn yn cadw llygaid craff ar unrhyw ddatblygiadau pellach.

HYFFORDDIANT

Ni chafwyd unrhyw hyfforddiant, unai fel grwp nac yn unigol yn ystod y flwyddyn hon.

SYLWADAU CYFFREDINOL

Mae angen cynnal a chadw ar faes chwarae y plant yn Betws yn Rhos. Mae CBSC wedi gaddo y byddant yn gwneud chydig o waith ar yr offer rhyw ben yn ystod y flwyddyn ond hyd yn hyn ddim wedi ei wneud. Mae'r Cyngor Cymuned yn ceisio ariannu ychwaneg o offer yn y cae. Mae gwahanol prisau wedi cael ei derbyn a fydd rhaid edrych am grantiau i wneud gwaith. Mae'r proses yma yn mynd ymlaen.

Cafodd y Cyngor grant i ddechrau 'Hwb Cynnes' dros y gaeaf ble roedd cyfle i bobl gyfarfod am sgwrs a lluniaeth ysgafn. Bu i hyn gario ymlaen i'r gwanwyn a wedyn am weddill y flwyddyn. Mae gwirfoddolwyr yn dal yn ei gynnal.

Yr eiddoch yn gywir

Mel Jones
Clerc
Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos
07833 548435
clerc@betwsallanelian.org.uk